



Cyngor am nwyddau ffug

Bob blwyddyn, mae Safonau Masnach yn ymafael mewn miloedd o nwyddau ffug anghyfreithlon.

Mae nwyddau ffug yn edrych fel rhai go iawn ond maent mewn gwirionedd yn ffug. Y nwyddau ffug mwyaf poblogaidd yw DVDau, cryno ddisgiau, nwyddau cyfrifiadurol, alcohol, oriorau, persawr, teganau, darnau ceir a nwyddau cosmetig. Mae technoleg newydd yn ei gwneud yn haws i droseddwr gynhyrchu copïau a gall fod yn anodd i ddefnyddwyr ddweud a ydynt yn ffug.

Beth sydd o'i le ar brynu nwyddau ffug?

Efallai y teimlwch nad oes unrhyw beth o'i le ar brynu nwyddau ffug, mae sawl rheswm dros beidio â'u prynu:

1. Gall nwyddau ffug fod yn rhad ond yn aml iawn maent wedi'u gwneud o ddeunyddiau sâl ac mae'r safon yn wael. Efallai'ch bod wedi prynu copi o DVD sydd heb ei rhyddhau yn y siopau eto ond wrth ei gwyllo fe welwch nad yw'n gweithio'n iawn; neu efallai'ch bod wedi prynu dillad chwaraeon ffug sy'dd wedi dod yn ddarnau ar ôl eu rhoi yn y peiriant. Cofiwch, os ydych yn prynu nwyddau ffug, mae'n anhebygol y cewch ei'ch arian yn ôl os aiff pethau o'i le.
2. Efallai bod y nwyddau'n beryglus. Gall nwyddau cosmetig ffug achosi alergeddau cas a gall darnau ceir ffug fethu ac achosi damweiniau. Gall nwyddau trydanol ffug achosi tanau mewn tai.
3. Efallai'ch bod yn rhoi arian i droseddwr sy'n defnyddio'r arian i ariannu troseddau eraill. Mae rhai troseddwr yn delio cyffuriau neu'n gysylltiedig â throseddau wedi'u trefnu.
4. Yn aml mae'r nwyddau wedi'u gwneud dramor mewn gwledydd tlawd lle mae'r gweithwyr yn derbyn cyflogau isel iawn.

5. Mae troseddwy'r sy'n gwerthu nwyddau ffug yn peri i fusnesau cyfreithlon golli miliynau o bunnau'r flwyddyn. Gall hyn arwain at wneud pobl yn ddiwaith.

Beth i chwilio amdano

1. Os yw'r nwyddau'n llawer rhatach na mewn manau eraill, dylech fod yn amheus.
2. Gwiriwch ansawdd y gwaith pwytho ar y labeli.
3. Gwiriwch y logos a'r brandiau am unrhyw gamsillafu.
4. Chwiliwch am yr un eitem mewn sawl lliw gwahanol. Nid yw nwyddau gan ddylunwyr dilys yn debygol o gael eu masgynhyrchu fel hyn.
5. Yn aml iawn mae DVDau wedi'u copïo yn cynnwys cloriau sydd wedi'u llungopïo ac yn deitlau nad ydynt wedi'u rhyddhau ar DVD eto.
6. Edrychwch ar safon y deunydd pecynnu.

Byddwch ar eich gwylidwraeth pan fyddwch mewn arwerthiannau cist car neu farchnadoedd oherwydd fe allech ddod o hyd i'r masnachwyr eto os yw pethau'n yn mynd o chwith.

Os ydych yn gwybod am rywun sy'n gwerthu nwyddau ffug, cysylltwch â Chyngor i Ddefnyddwyr ar 08454 04 05 06.